



DATGANIAD O DDIBEN

2020 - 2021

CYNNWYS

Tudalen 3	Cyflwyniad
Tudalen 4	Ein Hamcanion
Tudalen 5	Statws a Chyfansoddiad
Tudalen 6	Lleoliad y Gwasanaeth
Tudalen 7	Strwythur Rheoli
Tudalen 8	Strwythur Tîm Rhanbarthol
Tudalen 9	Ein Timau Gwaith Cymdeithasol
Tudalen 10	Ein Timau Gwasanaethau Cymorth
Tudalen 11	Safonau Gofal
Tudalen 12	Y Gwasanaeth a Ddarperir
Tudalen 14	Y Broses Baru
Tudalen 14	Cefnogi Gofalwyr i Ofalu am Blant
Tudalen 17	Cefnogi Plant a Phobl Ifanc
Tudalen 18	Recriwtio, Asesu a Chymeradwyo
Tudalen 20	Dysgu a Datblygu
Tudalen 23	Ystadegau
Tudalen 24	Staff a Chymwysterau
Tudalen 27	Cwynion a Chanlyniadau
Tudalen 28	Llywodraethu a Monitro Ansawdd
Tudalen 30	Siart o'r Sefydliad

CYFLWYNIAD

Datblygwyd y Datganiad o Ddiben hwn yn unol â chyfraith a rheoliadau statud, gan gynnwys:

- Gwasanaethau Maethu, Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol (Cymru)
- Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003
- Canllawiau a Rheoliadau Deddf Plant 1989 Cyfrol 4: Gwasanaethau Maethu
- Rheoliadau Lleoli Plant (Cymru) 2007
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Rheoleiddiedig (darparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol) (Cymru) 2019

Ei nod yw rhoi gwybodaeth i blant, pobl ifanc, rhieni, gofalwyr, staff a gweithwyr proffesiynol eraill am yr asiantaeth a'r gwasanaethau a'r cyfleusterau a ddarparwn, gan gynnwys:

- Datganiad o nodau ac amcanion Calon Cymru Fostering
- Gwybodaeth am y gwasanaethau a'r cyfleusterau a ddarperir gan Calon Cymru Fostering

Mae copi o'r datganiad ar gael, ar gais, i'r canlynol:

- Arolygiaeth Gofal Cymru
- Prynwyr y gwasanaeth
- Unrhyw berson sy'n gweithio i'r gwasanaeth maethu (Calon Cymru Fostering) neu gydag ef
- Unrhyw blentyn (yn amodol ar oed a dealltwriaeth) a leolir gyda'r gwasanaeth maethu
- Unrhyw riant neu warcheidwad i unrhyw blentyn a leolir gyda'r gwasanaeth maethu

Darperir canllawiau croeso i blant a phobl ifanc hefyd, sy'n briodol i'w hoed ac sydd ar ffurf fwy addas iddynt eu deall.

Adolygir y Datganiad o Ddiben hwn o leiaf bob blwyddyn gan yr Uwch Dîm Rheoli.

EIN HAMCANION

- Darparu gwasanaeth ymatebol, cefnogol, proffeisynol 24 awr ar gyfer Goflawyr Maeth, Plant sy'n derbyn gofal a phrynwyr
- Darparu lleoliadau Gofalwyr Maeth sy'n rhoi profiad sefydlog a chyson i Blant sy'n derbyn gofal o fywyd teuluol diogel, cynnes a gofalgar, er mwyn sicrhau'r canlyniadau personol gorau posibl a gwella'u potensial
- Hyrwyddo dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn drwy gydol ein hymarfer, gan sicrhau bod lles y plentyn o'r pwys mwyaf yn ein holl benderfyniadau
- Sicrhau paru gofalus rhwng anghenion plentyn a'r canlyniadau personol a nodwyd ar ei gyfer/chyfer, a sgiliau a rhinweddau y Gofalwr Maeth
- Recriwtio a chadw Gofalwyr Maeth o gefndiroedd amrywiol, gan sicrhau dewis o opsiynau lleoli priodol ar gyfer plant a phobl ifanc
- Sicrhau bod anghenion diwylliannol ac amrywiol pob plentyn a pherson ifanc yn cael eu nodi a'u diwallu
- Hyrwyddo canlyniadau addysgol pobl ifanc, gan alluogi iddynt elwa o ystod o weithgareddau addysgiadol
- Galluogi pobl ifanc i ddatblygu diddordebau cymdeithasol a hobïau ac i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau
- Hyrwyddo ffordd o fyw iach a sicrhau bod anghenion iechyd emosiynol a chorfforol pob plentyn yn cael eu diwallu
- Hyrwyddo cyswllt â'r teulu biolegol a phobl eraill arwyddocaol yn ystod lleoliad
- Sicrhau bod pob Gofalwr Maeth yn medru cael mynediad at gymorth, hyfforddiant ac arweiniad amserol gan Weithwyr Cymdeithasol â chymwysterau addas

- Ymrwymo i ddysgu parhaus a datblygiad proffesiynol yr Asiantaeth, y Gofalwyr Maeth a'r Staff
- Ymrwymo i ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' yr iaith Gymraeg
- Ymrwymo i ddatblygu ein hymarfer drwy ymgynghori â defnyddwyr a chyfranogiad defnyddwyr
- Sicrhau'r gwerth gorau bob amser

STATWS A

CHYFANSODDIAD

Mae Calon Cymru Fostering (yr enw busnes cofrestredig yw Pathway Care Ltd, ac enw masnachu'r asiantaeth yw Calon Cymru Fostering) wedi'i gofrestru a'i arolygu fel darparwr maethu o dan Reoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003, ac felly a gyfansoddwyd yn briodol i ddarparu lleoliadau gofal maeth i Blant a Phobl Ifanc sy'n derbyn gofal ar ran Awdurdodau Lleol.

Mae Calon Cymru Fostering wedi datblygu yn organig dros y 22 mlynedd ddiwethaf i fod yn ddarparwr allweddol o ran gwasanaethau maethu ar draws De Ddwyrion a De Orllewin Cymru, tra'n parhau i gynnal ymdeimlad cryf o fod yn ystyriol i deuluoedd.

Mae'r Bwrdd Cyfarwyddwyr yn berchen-reolwyr ac yn cymryd rhan weithredol yn y busnes o ddydd i ddydd.

Bwrdd Cyfarwyddwyr Calon Cymru Fostering:

- Simon Lockyer — Cyfarwyddwr/Perchennog
- Grace Wyatt — Cyfarwyddwr/Perchennog
- Sharon Cavaliere — Cyfarwyddwr/Unigolyn Cyfrifol

Mae'r Bwrdd Cyfarwyddwyr yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn gyfrifol am lywodraethu corfforaethol y cwmni, yn ogystal â phenderfynu ac adolygu'r canlynol:

- Gweledigaeth Strategol
- Sicrhau Ansawdd
- Cynllun Busnes Blynyddol
- Polisiâu a Gweithdrefnau
- Rheolaeth Ariannol a Pherfformiad
- Cydymffurfiaeth Gyfreithiol
- Diwylliant, Gwerthoedd, Gweledigaeth a Chenhadaeth

LLEOLIAD Y GWASANAETH

Mae Calon Cymru yn asiantaeth faethu sydd wedi'i lleoli yng Nghymru â'i phrif swyddfa yng Nghaerdydd ac mae ganddi swyddfa arall yng Nghaerfyrddin. Mae ein Gofalwyr Maeth wedi'u lleoli o fewn y mwyafrif o'r awdurdodau lleol ar hyd De Ddwyrain a De Orllewin Cymru.

Swyddfa Gofrestredig Calon
Cymru:

Pathway Care Ltd
4 Jardine House
Harrovia Business Village
Bessborough Road
Harrow
Lloegr
HA1 3EX

Swyddfa Ranbarthol
Calon Cymru Fostering
Swyddfa 6
Tŷ Myrddin
Ffordd yr Hen Orsaf
Caerfyrddin

Prif Gangen Calon Cymru Fostering:

12 Lambourne Crescent
Parc Busnes Caerdydd
Llanishen
Caerdydd
CF14 5GF

STRWYTHUR

RHEOLI

Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn gyfrifol am gyfeiriad strategol a rheolaeth y sefydliad o ddydd i ddydd. Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn cynnwys Sharon Cavaliere, y Cyfarwyddwr (Unigolyn Cyfrifol), Joe Rhys-Jones, Pennaeth Gweithrediadau (Rheolwr Cofrestredig).

Mae gan yr Uwch Dîm Rheoli brofiad sylweddol mewn gwaith cymdeithasol, o fewn y sectorau statudol, elusennol ac annibynnol. Mae'r ddau yn weithwyr cymdeithasol cymwysedig sydd wedi gweithio o fewn y maes diogelu a maethu / mabwysiadu am flynyddoedd lawer, naill ai mewn rolau gweithredol, uwch reoli, ymarfer neu ddatblygu. Mae ganddynt ystod o gymwysterau gan gynnwys MA, BA, NVQ4, DipSw a MSc mewn Ymarfer Proffesiynol (Arweinyddiaeth).

Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn cyfarfod yn fisol. Y diben yw darparu cyfeiriad strategol cyffredniol i'r sefydliad. Yna caiff y wybodaeth hon ei lledaenu i'r Tîm Rheoli Gweithredol. Mae'r Uwch Dîm Rheoli hefyd yn mynychu cyfarfodydd ymarfer gwaith cymdeithasol a chyfarfodydd tîm busnes yn rheolaidd.

Mae'r Uwch Dîm Rheoli hefyd yn cyfarfod fel Bwrdd Diogelu i sicrhau bod y diwylliant diogelu ar draws y sefydliad yn dilyn canllawiau deddfwriaeth, polisi ac ymarfer. Cadeirir y Bwrdd Diogelu gan Arweinydd Diogelu yr asiantaeth (y Rheolwr Cofrestredig).

Mae'r Tîm Rheoli Gweithredol yn cynnwys y Rheolwr Cofrestredig, y Rheolwyr Gweithredol, y Dirprwy Reolwyr Gweithredol a'r Rheolwr Atgyfeiriadau.

STRWYTHUR Y TÎM

RHANBARTHOL

Mae gennym swyddfeydd rhanbarthol sy'n ganolfannau i staff a Gofalwyr Maeth yn y cymunedau a wasanaethwn. Mae cyfleusterau hyfforddi a chyfarfodydd ar gael yn ein dwy swyddfa ranbarthol, yng Nghaerdydd a Chaerfyrddin. Pan fo angen cynnal hyfforddiant neu gyfarfodydd i Ofalwyr Maeth y tu allan 'r ardaloedd hyn, llogir ystafelloedd yn lleol. Golyga hyn fod Calon Cymru Fostering yn medru darparu gwasanaeth lleol, sy'n agos at gymunedau'r plant a'r Gofalwyr Maeth.

Mae ein rhwydwaith TG yn caniatáu i Weithwyr Cymdeithasol gyfathrebu'n ddidrafferth lle bynnag y maent wedi'u lleoli.

EIN TIMAU

GWAITH

CYMDEITHASOL

Mae'r Cyfarwyddwr, Sharon Cavaliere (Unigolyn Cyfrifol) wedi gweithio i Calon Cymru am 20 mlynedd. Ei chefnidir yw Plant a Theuluoedd, Amddiffyn Plant, Maethu, Sicrhau Ansawdd a Dysgu a Datblygu.

Mae Calon Cymru Fostering yn hyrwyddo cydlyniant a chyfathrebu agos o fewn yr asiantaeth drwyddi draw. Mae'r timau staff rhanbarthol yn cyfarfod bob pythefnos, a daw ein timau gwaith cymdeithasol at ei gilydd bob chwarter ar gyfer eu cyfarfodydd ymarfer gwaith cymdeithasol. Mae'r cyfarfodydd hyn yn gyfle i'r timau ddatblygu ymarfer a dysgu, yn ogystal a chydfyfyrio ar arferion gorau'r asiantaeth.

Mae'r Rheolwr Cofrestredig, Joe Rhys-Jones yn gyfrifol am weithredu'r asianataeth o dydd i ddydd, ochr yn ochr â'r Rheolwyr Gweithredol sy'n gyfrifol am ddatblygu gwasanaethau i blant a phobl ifanc. Mae'r Rheolwr Cofrestredig yn Weithiwr Cymdeithasol cymwysedig â phrofiad yn y sector Statutol a Phreifat. Mae gan Joe Rhys-Jones brofiad helaeth hefyd ar lefel uwch reoli yn yr awdurdod lleol.

Mae Gweithwyr Cymdeithasol Goruchwylio yn gymwysedig, wedi'u cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, ac yn Weithwyr Cymdeithasol profiadol sydd wedi gweithio ym maes gofal plant statudol, ym myd y llysoedd, ym maes amddiffyn plant, mewn gwaith therapiwtig ac ym maes maethu / mabwysiadu. Rydym hefyd yn cefnogi Gweithwyr Cymdeithasol drwy Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus Cymru. Mae gan fwyafrif y tîm gymwysterau ôl-gymhwyso pellach mewn seicloeg, y gwyddorau cymdeithasol a gwaith cymdeithasol. Mae gan bob un o'r Gweithwyr Cymdeithasol Goruchwylio ei (h)ardal ddaearyddol ac maent yn gyfrifol am ymweld yn rheoliadd ag aelwydydd sy'n darparu gofal, mynychu cyfarfodydd, treulio amser gyda phlant a phobl ifanc sydd mewn lleoliad a gwneud argymhellion ar gyfer yr adolygiad blynyddol o Ofalwyr Maeth. Mae pob un yn hwyluso Cyfarfodydd Tîm Cymorth i Ofalwyr ei hunan.

Mae Gweithwyr Cymorth Lleoliadau, Gweithwyr Allgymorth, a Gweithwyr Sesiynol yn darparu cymorth penodol i ofalwyr maeth a phobl ifanc. Mae

Gweithwyr Unigol yn gweithio gyda phobl ifanc yn unigol gan ddarparu cymorth â ffocws mewn ffordd sydd wedi'i chynllunio. Er enghraifft, sgiliau ar gyfer byw yn annibynnol, datblygu ac adolygu cynllun rheoli ymddygiad ar gyfer person ifanc. Mae'r profiad o fewn y tîm yn cynnwys addysgu, gwaith cymdeithasol preswyl, troseddau ieuencid, cofnodi profiadau bywyd, cwnsela ar gyffuriau, hyfforddi a gofal maeth. Mae'r cymwysterau yn cynnwys NVQ3, seicoleg a hyfforddwr rhianta cadarnhaol achrededig.

Mae Gweithwyr Cymorth wrth law i ddarparu cymorth ychwanegol ac ystyrlon i Ofalwyr Maeth, o ofal dydd i sesiynau unigol gyda phobl ifanc yn ôl yr angen.

EIN TIMAU

GWASANAETHAU

CYMORTH

Sharon Cavaliere, y Cyfarwyddwr (Unigloyn Cyfrifol) sy'n bennaf gyfrifol am gydymffurfedd a rhediad rhwydd yr asiantaeth. Mae'r Cyfarwyddwr wedi'i lleoli mewn swyddfa ac yn cyfarfod yn rheolaidd â staff a Gofalwyr Maeth.

Mae Joe Rhys-Jones, Y Rheolwr Cofrestredig, yn gyfrifol am reoli'r gwasanaethau cymorth o ddydd i ddydd, gan gynnwys recriwio Gofalwyr Maeth, y Panel, gweinyddu, ac lechyd a Diogelwch. Y Rheolwr Cofrestredig sy'n gyfrifol hefyd am sicrhau cydymffurfedd reoleiddiol ac am edrych ar ffyrdd arloesol o wella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i bobl ifanc, Gofalwyr Maeth, staff ac awdurdodau lleol.

Mae'r Rheolwr Recriwio a'r Tîm yn sicrhau bod gofalwyr o ansawdd da yn cael eu recriwio, eu hasesu, eu hyfforddi a'u cyflwyno i banel maethu effeithiol. Mae'r Rheolwr Recriwio yn Weithiwr Cymdeithasol cymwysedig â blynyddoedd lawer o brofiad asesu ym maes gofal plant a maethu statudol. Mae'r Rheolwr Recriwio hefyd yn delio ag ymholiadau cychwynnol gan ddarpar ofalwyr maeth; mae'n trefnu ymweliadau cartref ac ef yw'r pwynt cyswllt cyntaf drwy gydol y broses asesu.

Mae Cydlynnydd y Panel yn weinyddwr profiadol.

Mae'r Cydgysylltydd Cyfranogi yn gweithio yn uniongyrchol â phlant a phobl ifanc, gofalwyr maeth a staff i sicrhau bod pobl ifanc yn cymryd rhan a bod

eu lleisiau yn cael eu clywed ym mhob cam o'r broses gyfranogi (cyfranogiad a arweinir gan bobl ifanc; cyfranogiad a arweinir gan yr asiantaeth).

Mae'r Tîm Lleoliadau yn gyfrifol am sicrhau yr ymatebir yn effeithlon i atgyfeiriadau ar gyfer lleoliadau, gan gyflwyno paru da i'r Awdurdod Lleol a sicrhau y caiff plant eu trosglwyddo yn ddiraffferth i leoliad Calon Cymru wrth drosglwyddo i'r tîmau gwaith cymdeithasol.

Mae staff gweinyddol yn rhoi cymorth i weithwyr Calon Cymru Fostering drwy sicrhau gwasanaethau cyfathrebu, cyfleusterau a gweinyddu da. Mae'r Tîm Marchnata yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu strategaeth farchnata'r asiantaeth. Mae gwaith agos rhwng y Cyfarwyddwr a'r Tîm Uwch Reoli yn sicrhau y diwellir anghenion lleoli yr awdurdodau lleol ac y derbynnir llif cyson o geisiadau gan ddarpar ofalwyr maeth.

Mae ein holl staff wedi derbyn hyfforddiant mewn amddiffyn plant, diogelu, cydraddoldeb ac amrywiaeth, asesu risg, rheoliadau maethu a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

SAFONAU GOFAL

Yn Calon Cymru Fostering, credwn fod pob plentyn yn bwysig a bod anghenion, lles a buddiannau pennaf plant a phobl ifanc o'r pwys mwyaf.

Mae Calon Cymru Fostering yn diffinio paramedrau a disgwyliadau ein safonau yn ein dogfennau drwyddynt draw, ond yn arbennig yn ein:

- Llawlyfr Polisi a Gweithdrefnau
- Ymrwymiad Gofalwyr Maeth a Chytundeb Maethu
- Llawlyfr Gofalwyr Maeth
- Llawlyfr i Weithwyr Cyflogedig

Yn Calon Cymru Fostering credwn y canlynol:

- Mae gan bob unigolyn hawl hanfodol i ddatblygu ei botensial/photensial, waeth beth fo'i brofiadau/phrofiadau bywyd blaenorol

Mae gan Blant a phobl ifanc yr hawl i dderbyn gofal gan oedolion sy'n cynnig parch, consyrn ac anwyldeb

- Mae angen i oedolion barchu arwyddocâd ei deulu/theulu biolegol, ei hil, ei (d)diwylliant a'i grefydd/chrefydd i'r plentyn
- Mae gan Blant a phobl ifanc yr hawl i gyflawni'r canlyniadau gorau, yn unol â saith nod craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc
- Dylai pobl ifanc gael eu paratoi'n briodol ar gyfer ymadael â gofal: gan adael eu lleoliad Calon Cymru Fostering gyda chynilion, cyrhaeddiad addysgol i gefnogi'r yrfa o'u dewis a sgiliau addas ar gyfer bod yn annibynnol
- Dylai'r asiantaeth gael ei rheoli mewn ffordd foesebol, yn effeithiol ac yn effeithlon
- Mae'r holl staff, Gofalwyr Maeth ac oedolion eraill sy'n cael cyswllt â phlant drwy Calon Cymru Fostering yn gorfod derbyn archwiliadau a gweithdrefnau fetio trwyadl
- At hyn, bydd Calon Cymru Fostering yn:
 - Cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol ac yn ymdrechu i ragori ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol bob amser
 - Sicrhau bod hawliau plant yn cael eu hywryddo yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
 - Sicrhau y dilynir gweithdrefnau amddiffyn plant yn gadarn bob amser er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu diogleu
 - Gweithio mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol i nodi anghenion unigol a chanlyniadau dynodedig y plentyn ac yna ddarparu'r gofal hwnnw
 - Sicrhau nad yw Gofalwyr Maeth yn defnyddio cosb gorfforol, eu bod yn fedrus ym maes rheoli ymddygiad ac nad ydynt yn gwneud unrhyw beth sy'n diraddio, yn iselhau neu/n sarhau'r person ifanc sy'n derbyn gofal ganddynt
 - Sicrhau y caiff Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ei hyrwyddo bob amser, drwy recriwtio, asesu, paru a chymorth lleoliadau

Y GWASANAETH

A DDARPERIR

Mae Calon Cymru Fostering yn ceisio gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i sicrhau y darperir ystod eang o leoliadau i blant a phobl ifanc o bob oed gyda Gofalwyr Maeth. Mae'n bwysig nodi nad yw yw Calon Cymru yn darparu gofal therapiwtig na nyrsio. Yn Calon Cymru Fostering, credwn mai ein rôl yw cynnig gwasanaeth ategol i awdurdodau lleol er mwyn galluogi medru darparu ystod eang o opsiynau gofal maeth diogel a phriodol gan gynnwys:

Leoliadau Safonol: a ddarperir ar fyr rybudd gyda chefnogaeth gwasanaeth ymateb brys 24 awr.

Leoliadau Tymor Byr (hyd at 6 mis): sy'n darparu gofal am ychydig ddiwrnodau, wythnosau neu fisoedd tra y gwneir cynlluniau ar gyfer dyfodol hirdymor y plentyn.

Leoliadau Hirdymor: pan fo Gofalwyr Maeth yn darparu gofal parhaol i blentyn hyd at, ac i mewn i'w (h)annibyniaeth fel oedolyn pan nad yw mabwysiadu yn opsiwn.

Sefydlogrwydd: hyrwyddir ac anogir hyn er mwyn cynnig cartref sefydlog am oes.

Leoliadau Brodyr a Chwiorydd: lle lleolir brodyr a chwiorydd naill ai gyda'i gilydd neu ar wahân, yn dibynnu ar eu hanghenion, gyda ninnau yn hwyluso cyswllt rhwng brodyr a chwiorydd.

Leoliadau Unigol: lle ceir gofalwyr hynod brofiadol yn gofalu am blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth iawn a/neu ymddygiad heriol.

Seibiant: pan fo Gofalwyr Maeth yn rhoi seibiant i rieini / gofalwyr eraill, a chymorth ychwanegol lle bo'u rhwydeithiau cynnal eu hunain yn ddiffygiol. Gall hwn fod yn arhosiad dros nos neu ychydig wythnosau.

Plant ar eu Pen eu Hunain yn Ceiso Lloches: mae pecynnau cymorth yn cynnwys: cefnogi anghenion crefyddol, ieithyddol a diwylliannol; integeriddio â grwpiau cymunedol a grwpiau ffydd.

Leoliadau Rhiant/Rhieni a Phlentyn/Plant: sy'n darparu lleoliad diogel a chefnogol i riant/rieni a phlentyn/plant, lle bo staff a gofalwyr maeth yn

cefnogi'r rhiant/rhieni i ddatblygu eu sgiliau rhianta mewn amgylchedd teuluol naturiol, cynnes a meithringar.

Gwasanaeth Lleoli dan Arweiniad Therapiwtig: gwasanaeth â'r nod o ddiwallu anghenion y plant a'r bobl ifanc hynny na allant ymdopi na ffynnu ar mewn lleoliad safonol ar yr adeg honno.

Gofal + Lleoliadau: gwasanaeth sy'n darparu pecyn gofal a chymorth penodol i leoliadau maethu, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu rheoleiddio a gwydnwch.

Mae Calon Cymru Fostering yn dymuno cynnig lleoliad maethu i bob plentyn a phobl ifanc, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion mwy cymhleth a phobl ifanc y mae angen cymorth y gwasanaethau therapiwtig arnynt.

Mae'r Gwasanaeth Lleoli dan Arweiniad Therapiwtig a'r Gofal + Lleoliadau yn darparu cymorth dwys i blant a phobl ifanc a'u gofalwyr. Mae'r gwasanaethau wedi'u seilio'n drwm ar adferiad yn dilyn trawma, rhianta sy'n seiliedig ar ymlyniad ac addasu ymyddygiad. Mae goflawyr yn derbyn hyfforddiant dwys. Mae'r gwasanaeth therapiwtig yn derbyn ymgynghoriad gan wasanaeth Seicolegwyr Clinigol Calon Cymru Fostering, Stiwdio III.

Y BROSES

BARU

Yn Calon Cymru Fostering, rydym yn cydnabod bod pob plentyn a pherson ifanc yn unigolion unigryw. Felly caiff yr holl leoliadau eu 'paru' yn ofalus i sicrhau y gellir diwallu anghenion y plant a'r bobl ifanc gan y gofalwyr maeth a awgrymir. Gwneir hyn drwy gydweddu â lefel sgiliau a phrofiad gofalwyr.

Derbynnir atgyfeiriadau i gychwyn gan y Tîm Lleoliadau, sy'n cysylltu'n agos gyda'r tîm gwaith cymdeithasol, cydweithwyr yn yr awdurdod lleol a Gofalwyr Maeth, i sicrhau y caiff anghenion y plentyn eu diwallu'n llwyr drwy'r paru gorau posibl.

Ystyriwn y penderfyniad i leoli plentyn yn ddifrifol iawn a goruchwylir pob penderfyniad gan Reolwr Cofrestredig Calon Cymru Fostering, er mwyn sicrhau ein bod wedi cyflawni'r paru gorau posibl ar gyfer y plentyn a'r Gofalwr Maeth. Ni ddisgwylir i blant a phobl ifanc fyth rannu ystafell gyda phlentyn arall oni bai eu bod yn frodyr/chwiorydd, byddai hyn yn rhan o'r

broes baru.

CEFNOGI GOFALWYR I OFALU AM BLANT

Mae Gweithwyr Cymdeithasol Gouchwyllo Calon Cymru Fostering yn cydnabod, er nad oes ganddynt gyfrifoldeb rheoli achos ar gyfer y plentyn, mai eu cyfrifoldeb nhw yw sicrhau bod anghenion y plentyn a chanlyniadau personol o'r pwys mwyaf.

Cynhelir cyfarfodydd goruchwyllo bob pythefnos rhwng y Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwyllo a'r Gofalwyr Maeth, yn ogystal ag ymweliadau cymorth ychwanegol. Mae cyfarfodydd goruchwyllo yn canolbwyntio ar ddatblygiadau cadarnhaol i'r gofalwyr a'r plant, yn ogystal â meysydd sy'n peri pryder. Mae'r Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwyllo hefyd yn yn gyfrifol am gynorthwyo'r gofalwr i ddatblygu ei (g)yrfa, drwy nodi hyfforddiant ac anghenion datblygu a dulliau o ddatblygu sgiliau a gwybodaeth y gofalwr.

Darperir cofnod o'r uchwyliaeth ar gyfer y Gofalwr Maeth a'i rhoi yn ei ffeil maethu yn syth ar ôl yr oruchwyliaeth, drwy gyswllt y Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwyllo â system yr asiantaeth drwy rwydwaith rhithwir. Mae hyn yn sicrhau bod unrhyw bwyntiau gweithredu yn cael eu cofnodi ac ar gael yn syth.

Mae Gweithwyr Cymdeithasol Goruchwyllo yn sicrhau eu bod yn gweld ac yn siarad â phlant a phobl ifanc ar eu pen eu hunain yn rheolaidd wrth ymweld â'r lleoliad.

Grwpiau Cymorth: Cynhelir grwpiau cymorth Gofalwyr Maeth ar draws rhanbarth Calon Cymru Fostering yn rheolaidd, er mwyn galluogi gofalwyr maeth i gyfarfod a chymdeithasu â'i gilydd, rhannu syniadau am arferion da, datblygu cefnogaeth cymheiriad a derbyn gwybodaeth gan yr asiantaeth. Mynychir y grwpiau cymorth gan staff Calon Cymru Fostering, ac mae uwch reolwyr yn eu mynychu yn rheoliadd.

Cymorth Brys: Mae Calon Cymru Fostering yn darparu gwasanaeth ar alwad 24/7, 365 niwrnod y flwyddyn i Ofalwyr Maeth, wedi'i staffio gan Weithiwr Cymdeithasol Goruchwyllo Calon Cymru Fostering sydd â mynediad at Reolwr Gweithredol, mae Uwch Reolwyr ar gael hefyd pan fo angen. Mae'r tîm hwn hefyd yn darparu gwasanaeth lleoli teulu i awdurdodau

lleol, ar gyfer lleoli plant mewn argyfwng.

Adolygiad Annibynnol Blynyddol: Mae pob Gofalwr Maeth yn cael adolygiad blynyddol i sicrhau ei fod/bod yn parhau i fod yn addas i faethu a bod eu cymeradwyaeth fel gofal maeth yn briodol. Mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol, gyda chefnogaeth Asiantaeth Calon Cymru Fostering, yn sicrhau bod yr holl ofynion statudol yn cael eu bodloni, a bod Gofalwyr Maeth yn cael cyfle i werthuso eu hymarfer a'u datblygiad, a gosod nodau a chynlluniau gweithredu newydd ar gyfer y flwyddyn ddilynol.

Polisiâu a Gweithdrefnau: Mae gan Ofalwyr Maeth fynediad at Lawlyfr Maethu cynhwysfawr. Mae'r Llawlyfr yn cynnwys gwybodaeth, polisiâu a gweithdrefnau yn ymwneud â phob agwedd ar faethu, a chaiff ei ddiweddarau yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn parhau yn ddogfen ganllaw berthnasol berthnasol.

Cadw Cofnodion: Disgwylir i'n gofalwyr gynnal cofnodion o ddigwyddiadau a gwybodaeth sy'n ymwneud â'r plentyn neu'r person ifanc sydd wedi'i (l)leoli. Mae Calon Cymru Fostering yn darparu profforma ar gyfer gwneud cofnodion, a gall gofalwyr gyflwyno cofnodion dyddiol neu wythnosol os bydd yr awdurdod lleoli yn gofyn amdanynt. Mae gofalwyr maeth hefyd yn cyfrannu at adroddiad misol i'r awdurdod lleol, gan fanylu ar y cynnydd a wnaed gan y plentyn neu'r person ifanc o ran cyflawni ei ganlyniadau/chanlyniadau personol a amlinellir yn ei Gynllun/Chynllun Gofal a Chymorth.

Cefnogi Plant sy'n Maethu: Mae Calon Cymru Fostering yn cydnabod cyfraniad sylweddol a wna plant biolegol mewn lleoliadau llwyddiannus. Darperir digwyddiadau a chyfleoedd rheolaidd i blant biolegol ddod at ei gilydd i drafod gyda staff yr asiantaeth a phlant biolegol eraill effaith gadarnhaol a negyddol rhannu eu cartrefi a'u teuluoedd.

Aelodaeth Foster Talk: Mae gan holl ofalwyr Calon Cymru Fostering yr hawl i gael aelodaeth flynyddol o Foster Talk. Mae Calon Cymru Fostering yn talu am hyn ac yn rhoi mynediad i'r Gofalwyr Maeth at gyngor ac arweiniad gan gynnwys cyngor ariannol a chyfreithiol ac yswiriant.

Cyllid: Mae holl ofalwyr cymeradwy Calon Cymru Fostering yn derbyn lwfans a delir bob pythefnos drwy gydol y lleoliad. Mae lefel y lwfans hwn yn ddibynnol ar y math o leoliad ac ar brofiad y Gofalwr Maeth. Mae pob Gofalwr Maeth yn hunangyflogedig, ac felly yn gorfod talu Treth ac Yswiriant Cenedlaethol eu hunain, sy'n swm bychan. Caiff arweiniad ariannol, ochr yn ochr â manylion am gyfrifydd arbenigol i gynorthwyo gyda materion treth, eu

darparu gyda'r Llawlyfr Maethu.

Diogelu Data: Defnyddiwn system ddiogel wedi'i hamgryptio i anfon gwybodaeth yn allanol am bobl ifanc a Gofalwyr Maeth. Rydym yn cymryd Diogleu Data o ddifrif ac wedi sicrhau bod pob aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant yn y maes hwn gan gynnwys egwyddorion y GDPR, er mwyn sicrhau y caiff gwybodaeth bersonol / sensitif ei phrosesu yn gyfreithiol ac yn ddiogel.

Cael Hwyl: Rydym yn cydnabod bod gofalu am blant pobl eraill yn fusnes difrifol ac y gall fod yn heriol ac weithiau beri straen. Mae Calon Cymru Fostering yn annog Gofalwyr Maeth i ddod at ei gilydd a chymdeithasu. Rydym hefyd yn trefnu digwyddiadau cymdeithasol rheolaidd, lle gall gofalwyr gael hwyl gyda phobl debyg. Rydym hefyd yn darparu aelodaeth CADW (gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru) i bob teulu sy'n maethu.

CEFNOGI PLANT A PHOBL IFANC

Mae ein Gweithwyr Cymdeithasol Goruchwylio / Gweithwyr Unigol yn siarad yn unigol yn rheoliadd â'r Plant a'r Bobl Ifanc sydd mewn lleoliad Calon Cymru.

Mae'r ystod o wasanaethau sydd ar gael i blant a phobl ifanc yn cynnwys:

- Cymorth i ddilyn hobi neu ddiddordeb, gan gynnwys gweithgareddau gwyliau
- Gwaith unigol neu grŵp, gan gynnwys gweithgareddau strywthuredig ar gyfer plant y tu allan i'r ysgol
- Gweithgareddau cymdeithasol i feibion a merched Gofalwyr Maeth
- Mynediad at sefydliadau cenedlaethol
- Cymorth ymarferol gyda thrafnidiaeth neu fynediad at wasanaethau / cyfleusterau allanol
- Cyswllt dan oruchwyliaeth â theuluoedd
- Profiadau bywyd neu baratoi ar gyfer sefydlogrwydd
- Gweithwyr Addysg a Therapiwtig proffesiynol i ddarparu cymorth yn

uniongyrchol i blant neu gyngor i'n Gweithwyr Cymdeithasol/Gofalwyr Maeth

Arweiniad: Er mwyn cynorthwyo Plant sy'n derbyn gofal i ddatblygu tra'u bod dan ofal gofalwr maeth Calon Cymru, darparwn arweiniad a chymorth therapiwtig.

Grwpiau Cyfranogi: Mae llais y Plentyn/Person Ifanc a'u cyfranogiad yn natblygiad parhaus Calon Cymru Fostering o'r pwys mwyaf. O'r herwydd, mae gennym Gydgysylltydd Cyfranogi penodedig sy'n ymgynghori â Phlant a Phobl Ifanc ar bolisiau, ein hysbysu am ddatblygiadau ar gyfer yr asiantaeth ac yn ymgysylltu ag ymgynghoriadau a chyfranogiad o dan arweiniad pobl ifanc.

Mae'r asiantaeth yn cynhyrchu cylchlythyr a baratoir gyda grŵp o Blant a Phobl Ifanc. Dyma le i'n pobl ifanc ddangos eu talenatu ac mae'n cynnwys eu gwaith celf, cerddi, storïau, jôcs a phosau ac mae'n tynnu sylw at unrhyw gyflawniadau. Mae pobl ifanc hefyd yn ymwneud â'r broses o recriwtio gofalwyr a staff.

Mae pobl ifanc hefyd yn cynorthwyo yn natblygiad parhaus ein gwasanaeth 'Pan Fydda i'n Barod' ac yn dysgu sgiliau i fod yn annibynnol. Cynhelir digwyddiadau ar gyfer plant biolegol i'w galluogi i baratoi ar gyfer maethu a dysgu oddi wrth ei gilydd.

RECRIWTIO,

ASESU A CHYMERADWYO

Mae Calon Cymru Fostering wedi ymrwymo i recriwtio Gofalwr maeth sy'n medru diwallu anghenion plant a phobl ifanc drwy ddarparu gofal o safon uchel. Mae'r holl ddarpar Ofalwyr Maeth sy'n gwneud ymholiad yn gorfod derbyn asesiad a gweithdrefn fetio drwyadl.

Mae hyn yn cynnwys:

- Ymweliad Cychwynnol â'r Cartref
- O leiaf dri geirda (gan gynnwys dau nad ydynt gan berthynas)
- Geirda partner blaenorol

- 10 ymweliad ar gyfartaledd ag ymgeiswyr ac aelodau o'u haelwydydd
- Adroddiad meddygol
- Gwiriadau adnabod, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- Gwiriadau'r Awdurdod Lleol (yn ôl i 18 oed)
- Aseidiadau lechyd a Diogelwch
- Proses asesu dau gam, gyda hyfforddiant gorfodol
- Aseiad Ffurlen F llawn
- Gwiriadau cyflogaeth
- Geirda plant

Mae'r broses asesu yn cymryd 4-6 mis, a gwneir pob ymdrech i sicrhau nad oes unrhyw oedi y gellir ei osgoi. Caiff yr holl wybodaeth a gesglir ei chadw ar ffeil yn unol â Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2019 a'r Ddeddf Diogelu Data.

Panel: Cyflwynir yr adroddiad asesu i Banel annibynnol Calon Cymru Fostering. Mae'r Panel yn cynnwys hyd at chwe aelod sydd ag amrywiaeth o arbenigedd a gwybodaeth, gan gynnwys iechyd, eiriolaeth, gofal maeth a phrofiad o fod mewn gofal. Swyddogaeth y Panel yw i gyflawni rôl sicrhau ansawdd annibynnol, gan argymhell a yw'r darpar ofalwyr a gyflwynir iddynt yn addas i fod yn Ofalwyr Maeth da ai peidio.

Caiff y penderfyniad terfynol ynglŷn â chymeradwyo ei wneud gan Benderfynwr yr Asiantaeth – uwch reolwr sydd â chymhwyster gwaith cymdeithasol. Os yw'r Gofalwyr Maeth yn anhapus â'r penderfyniad terfynol, mae ganddynt hawl i apelio. Gellir gwneud hyn yn uniongyrchol i'r asiantaeth neu i'r Mekanwaith Adolygu Annibynnol. Cynhelir Paneli Calon Cymru yn ein swyddfa yng Nghaerdydd.

Caiff Cytundebau Gofal Maeth ac Ymgymryd â Chytundebau Gofal Maeth eu cwblhau ar ôl eu cymeradwyo, gan gwmpasu ystod o wybodaeth ac ymrwymadau cytundebol sy'n cynnwys:

- Gofalu yn briodol am blant a phobl ifanc mewn lleoliad, fel y nodwyd yng nghytundeb y lleoliad maethu
- Hysbysu Calon Cymru Fostering am unrhyw newidiadau arwyddocaol perthnasol i'w haelwyd neu i'w manylion
- Dilyn gweithdrefnau a nodir yn Llawlyfr yr asiantaeth

Mae gan bob Gofalwr Maeth fynediad at y Llawlyfr Maethu, sy'n cynnwys manylion am:

- Safonau gofal
- Cymorth a hyfforddiant
- Cwynion ac apeliadau
- Gweithdrefnau amddiffyn plant
- Proses adolygu gofalwyr yn flynyddol
- Darpariaeth yswiriant
- Gweithdrefnau cyfrinachedd
- Polisi rheoli ymddygiad

DYSGU A

DATBLYGU

Er mwyn cynnig gofal o safon uchel i blant a phobl ifanc, mae ein Gofalwyr Maeth wedi'u hyfforddi a'u harfogi i fodloni gofynion y dasg.

Mae Gofalwyr Maeth yn cwblhau Fframwaith Sefydlu Gofal Cymdeithasol Cymru, rydym wedi rhagori ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol (Cymru), ac yn ategu hyn gyda fframwaith o fynediad cyfartal at hyfforddi a dysgu, ymarfer gwrthwahanïaethol a chyfle cyfartal.

Hyfforddiant Sgiliau i Faethu

Mae pob darpar ofalwr yn mynychu'r hyfforddiant tridiau hwn fel rhan o'u hasesiad cychwynnol, cyn cwblhau'r asesiad. Mae'r pynciau a drafodir yn cynnwys:

- Pam fo plant yn dod i dderbyn gofal
- Hyrwyddo ymdeimlad o hunaniaeth
- Gweithio mewn partneriaeth gyda rhieni biolegol a gweithwyr proffesiynol
- Fframwaith deddfwriaethol
- Datblygiad plant
- Ymlyniad a cholled
- Gofalu'n ddiogel
- Ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â cham-drin ac amddiffyn plant
- Amrywiaeth
- Symud ymlaen

Ymsefydlu ar ôl Cymeradwyaeth

Yn dilyn asesiad mae pob Gofalwr Maeth yn cael cyfnod ymsefydlu trwyadl. Mae hwn yn cynnwys sicrhau bod gofalwyr yn glir ynghylch polisïau a gweithdrefnau gan gynnwys amddiffyn plant, gofal diogel ac iechyd a diogelwch. Mae'r pynciau sefydlu yn cynnwys:

- Gweithio gyda Calon Cymru Fostering
- Cymorth a goruchwyllo
- Hyfforddi a datblygu
- Y broses atgyfeirio a pharu
- Cyllid

Y 12 Mis Cyntaf

Mae hyfforddiant yn hanfodol ar gyfer ein Goflawyr Maeth, i'w helpu i ddeall eu

rôl hanfodol o ran cefnogi plant a phobl ifanc yn ystod eu blynyddoedd ffurfiannol, pan na all eu rhieni wneud hynny.

Mae hyfforddiant hefyd yn bwysig i'w helpu i ddeall rolau a chyfrifoldebau'r gwahanol unigolion, asiantaethau a sefydliadau sydd hefyd yn darparu gwasanaethau ac yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru.

Mae Calon Cymru Fostering yn darparu nifer o gyrsiau (wedi'u hwyluso'n fewnol ac yn allanol gan ein Swyddog Dysgu a Datblygu penodedig) i gynorthwyo Gofalwyr Maeth i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth.

Rydym yn cydnabod bod gan unigolion wahanol arddulliau dysgu. Felly rydym yn darparu hyfforddiant ar wahanol ffurfiau:

- e-Ddysgu
- Wyneb yn wyneb
- Darllen
- Ymarfer myfyriol

Isod mae rhai o'r cyrsiau hyfforddi sydd ar gael i'n Gofalwyr Maeth:

- Sgiliau i Faethu (cwrs tridiau)
- Cyflwyniad i'r asiantaeth a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Cymorth Cyntaf (pediatrig)
- Diogelu (Gofal Cymdeithasol Cymru: fersiwn 3)
- Gofal mwy Diogel – rheoli risg
- Gofal mwy Diogel - honiadau
- Cofnodi, Arsylwi ac Adrodd
- Datblygiad Plant 0-18
- Deall ymlyniad
- Hyfforddi Emosiwn (cwrs deuddydd)
- Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein
- Iechyd a'r Plentyn sy'n Datblygu
- Addysg a'r Plentyn sy'n Derbyn Gofal
- Trawsrywedd – Deall a Chefnogi
- Radicaleiddio
- Cyswllt â Gweithio gyda Theuluoedd Biolegol
- Rhianta Therapiwtig (cwrs deuddydd)
- Rhiant a Phlentyn (cwrs deuddydd)
- Deall Llinellau Cyffuriau
- Symud ymlaen/ Pan fydda i'n barod
- Cyflwyniad i fodel 'Arwyddion Diogelwch'
- Byw gydag Awtistiaeth
- Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant

* - cyrsiau a ystyrir yn hyfforddiant 'craidd' i bob Gofalwr Maeth.

Mae darparu cyfres gynhwysfawr o hyfforddiant i'n gofalwyr maeth yn flaenoriaeth allweddol i Calon Cymru, ac mae cyrsiau hyfforddi uwch ar gael i ofalwyr, gan gynnwys hyfforddiant ar-lein. Os oes cyrsiau eraill y mae gofalwyr yn teimlo y byddent o fudd i'w gyrfa faethu, rydym yn eu hannog i gysylltu â'u Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwylio, fel y gallwn ymchwilio i'r cyrsiau.

YSTADEGAU

Ar 1 Ebrill 2020:

- 166 o Ofalwyr Maeth wedi'u cofrestru gyda Calon Cymru Fostering
- 209 o blant mewn lleoliadau

Canran y plant yn ôl ystod oedran:

- 0-5 oed – 12.0%
- 6-10 oed – 25.8%
- 11-15 oed – 45.0%
- 16-18 oed – 17.2%

Canran y plant plant mewn perthynas â'r cyfnod mewn lleoliad

- Hyd at 1 flwyddyn – 36.8%
- 1-2 flynedd – 15.3%
- 2-3 blynedd – 14.8%
- 3 + blynedd – 33.0%

STAFF A

CHYMWYSTERAU

Enw	Teitl y Swydd	Cymwysterau
Sharon Cavaliere	Cyfarwyddwr (Cymru)	MSc mewn Ymarfer Proffesiynol, BSC(Anrh) Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol, DipSw Ôl-Radd
Joe Rhys Jones	Pennaeth Gweithrediadau (Rheolwr Cofrestredig -Cymru)	Diploma mewn Gwaith Cymdeithasol Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol - Lefel 4 Dyfarniad Addysgu Ymarfer Addysgu
Sharon Thomas	Rheolwr Gweithrediadau (Caerdydd)	CSS, NNEB
Jane Janson	Rheolwr Gweithrediadau (Caerdydd)	Diploma mewn Gwaith Cymdeithasol
Jacqui Reese	Rheolwr Gweithrediadau (Caerdydd)	BSc (Anrh) CQSW
Huw Binding	Rheolwr Gweithrediadau (Caerfyrddin)	Diploma mewn Astudiaethau Cymdeithaol Cymhwysol
Petra Llewelyn	Dirprwy Reolwr (Caerdydd)	BA (Anrh) DipSw
Claire Stonier	Dirprwy Reolwr (Caerdydd)	BA (Anrh) DipSw TAR, PQ1

Helen Suter	Dirprwy Reolwr (Caerfyrddin)	BSc (Econ) PG DipSw
Barrie Lewis	Rheolwr Recriwtio	CSS, PQ1
Michelle Crane	Rheolwr Swyddfa (Gweinyddu Gweithrediadau)	Tystysgrif NEBSM mewn Rheoli NVQ lefel 3 – Gweinyddu Busnes ILM lefel 4
Louise McGowan	Dirprwy Reolwr Y Swyddfa (Gweinyddu Gweithredia dau)	NVQ Lefel 3 Cynorthwydd Addysgu FfCCh
Alison McAllen	Rheolwr Dysgu a Datblygu	BSc (Anrh), DipSw, MSc
Amanda Sparks	Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwylio (Caerdydd)	DipSw
Clare Jones	Uwch-Ymarferydd Lleoliadau dan Arweiniad Therapiwtig (Caerdydd)	DipSw, PQ1
Katie Jones	Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwylio (Caerdydd)	BSc Criminoleg MA Gwaith Cymdeithasol
Natalia Zych-Simoes	Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwylio (Caerdydd)	DipSw, BA Addysgeg, Msc Criminoleg a Chyfiawnder Troseddol

Rhea Brayford	Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwylio (Caerdydd)	BSc mewn Gwaith Cymdeithasol, Prifysgol Cymru
Sandra Herbert	Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwylio (Caerdydd)	DipSw, Diploma Uwch mewn Cwnsela Therapiwtig
Sandra Wheatley	Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwylio (Caerdydd)	DipSw Hyfforddwr Rhaglen Rhianta Early Bird ar gyfer plant ag awtistiaeth
Tahmina Khan	Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwylio (Caerdydd)	DipSw, PQ1
Sarah-Jayne Reynolds	Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwylio (Caerdydd)	BSc Criminoleg a Seicoleg MSc Gwaith Cymdeithasol
Louise Davies	Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwylio (Caerdydd)	DipSw, Ymarfer Galluogol PQ BA Addysg,
Kat Conway	Uwch-Ymarferydd Lleoliadau dan Arweiniad Therapiwtig (Caerfyrddin)	BSc Gwaith Cymdeithasol
Wendy Brain	Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwylio (Caerfyrddin)	CQSW, NNEB
Emily Tolchard	Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwylio (Caerfyrddin)	BSc Gwaith Cymdeithasol, Cyfuno Ymarfer Gwaith Cymdeithasol

Hazel Orchard	Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwylio (Caerfyrddin)	DipSw PQ 1
Viv Potter	Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwylio (Caerfyrddin)	DipSw, PQ1, Tystysgrif mewn Cwnsela
Wendy Brain	Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwylio (Caerfyrddin)	CQSW, NNEB, Asesydd Ymarfer
Sam Evans	Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwylio (Caerfyrddin)	BA Gwaith Cymdeithasol BA Criminoleg a Gwyddoniaeth
Samantha Osborne	Gweinyddwr Lleoliadau	BSc Seicoleg
Gemma Nicholls	Rheolwr Lleoliadau	BA (Anrh) Hanes
Gaynor Jones-Lloyd	Gweithiwr Cymorth Lleoliadau (Caerfyrddin)	B-Tech
Debbie Worsley	Gweithiwr Allgymorth (Caerdydd)	Yn Gweithio tuag at Ddiploma mewn Gofal Plant
Emma Martin	Gweithiwr Cymorth Lleoliadau/Swyddog Cyfranogaeth (Caerdydd)	NNEB, HNC Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Andrea Cox	Gweithiwr Cymorth Lleoliadau	BA (Anrh) Ymarferydd mewn hyfforddi NVQ lefel4
Pauline Roper	Gweinyddwr Tîm Caerfyrddin	RSA 3
Debbie Fisher	Gweinyddwr Gweithrediadau	Cawrs Clait
Hebe Spink	Gweinyddwr Gweithrediadau	BA (Anrh), NVQ3

	au	
Gemma Brookman	Gweinyddwr Gweithrediad au	AAT Lefel 2 Cyfrifeg
Bethan Wright	Gweinyddwr Gweithrediad au	BA (Anrh) Dyniaethau Addysgu Tîm Cwrs TESOL
Ayesha Matthews	Swyddog Recriwtio Gofalwyr	BSc (Anrh) Cymdeithaseg

CWYNION A CHANLYNIADAU

Mae gan Calon Cymru Fostering weithdrefn gwyno gynhwysfawr, sydd ar gael yn eang ar wahanol fformatau sy'n addas ar gyfer plant, pobl ifanc, gofalwyr, rhieni a gweithwyr proffesiynol.

Unwaith eto, mae Calon Cymru Fostering yn rhagori ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol (Cymru) drwy gomisiynu Gweithiwr Cymdeithasol, sy'n annibynnol ar y tîm / gofalwr maeth, i archwilio'r gŵyn ymhellach os yw'r achwynydd yn parhau i fod yn anhapus yn dilyn y cam datrys problemau yn anffurfiol.

O Ebrill 1^{af} 2019 – Ebrill1^{af} 2020, derbyniwyd 5 cŵyn, y mae pob un ohonynt wedi'u harchwilio a'u cau.

O'r 5 cŵyn sydd wedi'u cau, cefnogwyd 2 yn rhannol, ac ni chefnogwyd y 3 arall.

Mae gan yr asiantaeth bolisi cadarn mewn lle o ran rheoli cwynion. Mae Rheolwr Cwynion penodedig a fydd yn dyrannu'r gŵyn i ymchwilio iddi o fewn 3 diwrnod gwaith. Yna bydd gan yr ymchwiliad amserlen dynn o 15 niwrnod yng ngham 1. Os na ellir ei datrys, neu os yw'r achwynydd yn anhapus â'r canlyniad, bydd Rheolwr Annibynnol yn cynnal ymchwiliad cam 2. Os yw'r achwynydd yn parhau i fod yn anhpus yn dilyn ymchwiliad cam 2, yna gellir cyflwyno apêl a gall Sharon Cavaliere, y Rheolwr/Cyfarwyddwr Cofrestredig, wrando arni.

I gael copi o'n Gweithdrefn Gwynion neu i wneud cŵyn neu i ganmol, cysylltwch os gwelwch yn dda â Joe Rhys-Jones, y Rheolwr Cofrestredig, ar 02920 811 173.

LLYWODRAETHU A MONITRO ANSAWDD

- Mae Sharon Cavaliere, yr Unigolyn Cyfrifol, wedi'i lleoli yn yr un swyddfa â Joe Rhys-Jones, y Rheolwr Cofrestredig. Mae Sharon Cavaliere yn gweithio'n barhaus yn y swyddfa ac felly mae'n rhyngweithio â'r timau o ddydd i ddydd. Mae Sharon Cavaliere hefyd yn ymweld yn rheoliadd â'r swyddfa yng Nghaerfyrddin ac yn cyfarfod â'r tîm rheoli. Mae Sharon Cavaliere yn darparu cymorth ac arweiniad yn absenoldeb Joe Rhys-Jones neu yn ogystal ag ef.
- Mae Sharon Cavaliere (UC) a Joe Rhys-Jones (RhC) yn cynnal asesiadau rheolaidd mewn perthynas â ffeiliau ar gyfer plant a gofalwyr.
- Mae Sharon Cavaliere (UC) yn ymweld â gofalwyr yn eu cartrefi i gadarnahu a ydynt yn hapus â'r gwasanaeth neu a ellir gwella unrhyw beth.
- Mae strwythur rheoli clir a thryloyw iawn o fewn y gwasanaeth, gan fod yr Unigolyn Cyfrifol yn rheoli Joe Rhys-Jones, y Rheolwr Cofrestredig. Yna mae Joe Rhys-Jones yn goruchwyllo'r tîm rheoli.
- Mae Joe Rhys-Jones (RhC) yn rheoli ac yn goruchwyllo pob cŵyn o'r pwynt cychwynnol o dderbyn y gŵyn hyd ddiwedd yr ymchwiliad a'r canlyniad. Mae Sharon Cavaliere (UC) yn sicrhau y glynir wrth amserlenni ac y rhennir unrhyw ddysgu â'r timau er mwyn gwella ymarfer yn barhaus.
- Mae'r asiantaeth yn sicrhau ei bod yn ymgynghori â'r holl randdeiliaid drwy nifer o ffyrdd. Mae gennym grŵp Cyfranogi Calon Cymru, rydym yn cynnal

grwpiau cyswllt Gofalwyr a gwelir gofalwyr a phlant yn rheoliadd gan y Gweithwyr Cymdeithasol Goruchwylio, y Rheolwr Gweithrediadau, Joe Rhys-Jones (Rheolwr Cofrestredig) a Sharon Cavaliere (Cyfarwyddwr/Unigolyn Cyfrifol). Mae Sharon Cavaliere hefyd yn cyfarfod yn rheolaidd â'r fframwaith Cymreig, Asiantaethau Maethu Annibynnol eraill a chomisiynwyr i sicrhau bod rhanddeiliad yn fodlon â'r gwasanaeth.

- Mae'r Asiantaeth yn sicrhau ei bod yn darparu adolygiad o Ansawdd Gofal bob 6 mis yn unol â rheoliad 63 Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019.

SIART O'R SEFYDLIAD

